

SWYDD FEWNOL/ALLANOL: RHEOLWR GWASANAETHAU DYSGWYR A CHAMPWS
Peidiwch â chynnwys CV. Llenwch bob rhan o'r ffurflen gais a'i dychwelyd i jobs@cymoedd.ac.uk

CWMNI	COLEG Y CYMOEDD	DYDDIAD MAE'R HYSBYSEB YN FYW	05/01/2022
SWYDD	RHEOLWR GWASANAETHAU DYSGWYR A CHAMPWS	ORIAU/HYD	37 AWR YR WYTHNOS LLAWN AMSER/PARHAOL
CYFLOG	SO1 £30,540 - £32, 565	LEOLIAD	CAMPWS Y RHONDDA (OND EFALLAI BYDD GOFYN GWEITHIO AR GAMPWS ABERDÂR, NANTGARW AC YSTRAD MYNACH)
DYDDIAD/AMSER CAU	19/01/2022 12:00PM (NI FYDD CEISIADAU A DDERBYNNIR AR ÔL CANOL DYDD YN CAEL EU HYSTYRIED)	DYDDIAD CYFWELD	I'W GADARNHAU

Os ydych chi'n gallu ysgogi eich hunan, yn mwynhau helpu eraill a bod gennych sgiliau rhyngbersonol cryf, yna mae gennych chi'r hyn sydd ei angen i fod yn Rheolwr Gwasanaethau Dysgwyr a Champws yng Ngholeg y Cymoedd. Dyma gyfle gwych i weithio i gwmni sefydledig sy'n gwerthfawrogi eich cyfraniad, sy'n cefnogi eich datblygiad personol, ac sy'n eich herio i wneud eich gorau ar gyfer ein dysgwyr.

Y SWYDD

Mae'r swydd yn cynnwys arwain y gwaith o ddydd i ddydd o ddarparu gwasanaethau blaen y tŷ a hwb gwasanaethau cymorth i ddysgwyr cynhwysfawr ar gyfer campws y Rhondda, Coleg y Cymoedd. Mae hon yn swydd heriol sy'n symud yn gyflym a fydd yn gweddu i rywun sy'n mwynhau blaengynllunio ac sy'n gallu mynd i'r afael â galwadau annisgwyl a brys gan gwsmeriaid mewnol ac allanol.

Mae'r swydd yn gofyn am unigolyn hyblyg sy'n canolbwyntio ar atebion, sy'n gallu rheoli tîm o staff aml-sgiliau yn fedrus a gweithio'n agos gyda Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Dysgwyr a Champws, a dirprwyo ar ei gyfer, er mwyn sicrhau bod gwasanaeth blaengar o ansawdd, sy'n canolbwyntio ar y cwsmer, ar gael bob amser.

Mae'r swydd yn cynnwys gweithio'n agos â'r Rheolwyr Gwasanaethau Dysgwyr a Champws eraill i sicrhau bod y Coleg a'r campws bob amser yn cael eu cyflwyno yn y ffordd orau bosib i bawb, gan gysylltu a chydweithio ag ystod o dimau coleg, gan ddelio'n uniongyrchol â dysgwyr a'u rhieni a/neu warcheidwaid.

Bydd yr ymgeisydd delfrydol yn rheolwr profiadol, sy'n drefnus iawn, yn meddu ar ddealltwriaeth glir o reoli a chymhell pobl, ac yn unigolyn sy'n credu y gallan nhw wneud gwahaniaeth gwirioneddol i'n profiad dysgwyr ar y safle.

Rydyn ni'n rhagweld y bydd y swydd o ddiddordeb i unigolyn sydd â'r gallu a'r ymrwymiad i arwain tîm prysur, sydd â phrofiad eang o aml-dasgio, llygad graff am reoli ansawdd ac amser, sy'n ffynnu ar redeg swyddfa brysur, trefnu neu oruchwylio digwyddiadau, ac annog cyfranogiad gan staff a dysgwyr.

Y CWMNI

Mae'n gyfnod cyffrous iawn i Goleg y Cymoedd – mae canlyniadau i ddysgwyr wedi gwella'n sylweddol, gydag arfer sy'n arwain y sector mewn rhai ysgolion, a rhaglenni academiaidd a galwedigaethol yn cael canlyniadau sy'n gyson â chymaryddion cenedlaethol. Rydyn ni wedi buddsoddi'n sylweddol yn yr ystâd, gyda dau gampws newydd yn Aberdâr a Nantgarw a nifer o ganolfannau rhagoriaeth sy'n benodol i'r diwydiant a gefnogir gan ystod o gyflogwyr proffil uchel.

Ni fyddai llwyddiant y coleg yn bosib heb ymroddiad ac ymrwymiad ein gweithwyr ac mae'r tîm Gwasanaethau Dysgwyr a Champws yn gweithio'n galed i sicrhau bod Coleg y Cymoedd yn lle da i weithio.

PRIF GYFRIFOLDEBAU

- **Rheoli darpariaeth Gwasanaethau Dysgwyr a Champws i ddysgwyr, staff ac gwesteion**
- **Rheoli staff yn y Gwasanaethau Dysgwyr a Champws i sicrhau effeithlonrwydd gweithredol ac effeithiolrwydd y tîm**
- **Dirprwyo ar ran Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Dysgwyr a Champws fel y bo'n briodol**
- **Rheoli'r prosesau ar gyfer gweinyddu grantiau dysgwyr (gan gynnwys Grant Dysgu Llywodraeth Cymru, Lwfans Cynhaliaeth Addysg), gwasanaethau trafndiaeth, costau teithio, prydau bwyd am ddim, meithrinfa, bathodynau adnabod dysgwyr**
- **Cydweithio â'r arweinwyr coleg eraill i drefnu a chefnogi gweithgareddau recriwtio, ymrestru a sefydlu'r coleg**

- Rheoli a gweithredu rhaglenni lles a chyfoethogi'r campws (e.e. BOOST) a, lle bo hynny'n briodol, grwpiau cymorth a arweinir gan ddysgwyr
- Rheoli a gweinyddu ffrydiau ariannu allanol, fel cyllid grant Chwaraeon Cymru ac urddas mislif, er lles dysgwyr
- Rheoli fforwm llais y dysgwr
- Gweinyddu a mynychu cyfarfodydd disgyblu ar y cyd â Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Dysgwyr a Champws
- Rheoli a goruchwylio dyletswyddau gweinyddol yn swyddfa'r Gwasanaethau Dysgwyr a Champws
- Cyfrifoldeb am oruchwylio cyllid yn y Gwasanaethau Dysgwyr a Champws. Bydd hyn yn cynnwys, ymhlith eraill, dal a monitro'r gyllideb ar y cyd â Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Dysgwyr a Champws, derbyn arian, prosesu archebion prynu a'r nwyddau a dderbynnir.
- Cefnogi Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Dysgwyr a Champws i wneud defnydd effeithlon o adnoddau ar y campws gan gynnwys ystafelloedd/gofodau
- Mynd i gyfarfodydd y Pwyllgor Cydymffurfiaeth a'r Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a Lles a chyfrannu atynt
- Nodi materion yn ymwneud â llety ac ystadau ar y cyd â Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Dysgwyr a Champws, Ystadau, Iechyd a Diogelwch, Technoleg Gwybodaeth a rheolwyr academiaidd
- Goruchwylio gweinyddiaeth y Gwasanaethau Dysgwyr a Champws gan gynnwys y Dderbynfia, Reprograffeg, post mewnol ac allanol a darparu cefnogaeth weinyddol i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Dysgwyr a Champws
- Gweinyddu arholiadau lleol (trefnu ystafelloedd a dosbarthu tystysgrifau ac ati)
- Rheoli'r broses o logi ystafelloedd masnachol, gan gynnwys cysylltu â chleientiaid allanol, gwasanaethau safle a chyfleusterau arlwyo er mwyn sicrhau gwasanaeth cwsmeriaid o safon
- Gweithio gydag eraill i gynnal a chreu amgylchedd diogel, glân a phroffesiynol yn y Coleg

BETH RYDYN NI'N EI GYNNIG

Mae'r Coleg yn cynnig ystod o fuddion llesiant a chydbwysedd rhwng bywyd a gwaith, er mwyn cydnabod a gwobrwyo'r cyfraniad hollbwysig mae ein staff yn ei wneud i'n llwyddiant a'n twf. I enwi ond rhai, bydd gennych fynediad at:

- Gynlluniau pensiwn cyflog terfynol
- Parcio am ddim ar y safle ar bob un o'n campysau
- Pris gostyngol ar aelodaeth hamdden
- Rhaglen Cymorth i Weithwyr
- Gwyliau blynyddol hael
- Polisiâu sy'n hwyluso bywyd teuluol
- Mynediad at gysylltiad di-wifr a Microsoft Office 365 am ddim
- Gwobrau cydnabod staff
- Cyfleoedd i ddatblygu

PAM DDYLECH CHI YMGEISIO

- Cyflog cystadleuol
- Canolfannau rhagoriaeth penodol i'r diwydiant
- Coleg a thîm sydd wedi ennill gwobrau
- Pecyn buddion cystadleuol iawn
- Cyfleoedd gwych ar gyfer twf a datblygiad

AMSERLEN RECRIWTIO

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw **dydd Mercher 19 Ionawr 2022 am 12:00PM** (bydd ymgeiswyr sydd wedi cyrraedd y rhestr fer yn cael gwybod ddydd Gwener 28 Ionawr 2022). **Os na fyddwch chi wedi clywed gan y Coleg erbyn dydd Gwener 28 Ionawr 2022, dylech gymryd bod eich cais wedi bod yn aflwyddiannus y tro hwn.**

Os byddwch wedi cyrraedd y rhestr fer, ac yr hoffech i'ch cyfweiliad gael ei gynnal yn Gymraeg, cysylltwch â jobs@cymoedd.ac.uk

Noder: Fel arfer, byddai'r Coleg yn ceisio geirdaon cyn i'r ymgeiswyr gael eu gwahodd i gyfweiliad.

SUT I WNEUD CAIS

Llenwch bob rhan o'r ffurflen gais a'i dychwelyd i jobs@cymoedd.ac.uk
Sicrhewch eich bod yn defnyddio'r **Disgrifiad Swydd** a **Manyleb yr Unigolyn** i egluro sut mae eich sgiliau, eich profiad a'ch nodweddion yn eich gwneud chi'n addas ar gyfer y swydd. Mae angen hanes cyflogaeth llawn, gan gynnwys manylion am unrhyw fylchau mewn cyflogaeth. **Peidiwch â chynnwys CV.**

Os hoffech bostio'r cais yn lle ei e-bostio, anfonwch eich cais at:

**Yr Adran Adnoddau Dynol,
Coleg y Cymoedd,
Campws y Rhondda,
Llwynypia,
Tonypany,
Rhondda Cynon Taf
CF40 2TQ**

Am drafodaeth anffurfiol am y swydd hon, cysylltwch â Carolyn Donegan i drefnu amser sy'n gyfleus i chi'ch dau am sgwrs. 01443 663 250 / Carolyn.Donegan@cymoedd.ac.uk

I gael rhagor o wybodaeth am y Coleg, ewch i'n [Gwefan](#), [Facebook](#), [Twitter](#), [Instagram](#) a [LinkedIn](#).

HAWL I WEITHIO YN Y DEYRNAS UNEDIG

Mae Adran 8 Deddf Lloches a Mewnfudo 2008 yn ei gwneud yn drosedd i gyflogwr gyflogi gweithiwr newydd y mae eu statws mewnfudo yn eu hatal rhag gweithio. Os cewch eich gwahodd am gyfweiliad, bydd gofyn i chi ddangos tystiolaeth ddogfennol gyfredol a gwreiddiol o'ch hawl i weithio ym Mhrydain.

DIOGELU DATA

Bydd unrhyw ddata amdanoch chi'n cael ei ddal yn ddiogel, a bydd mynediad wedi'i gyfyngu i'r rhai sy'n ymdrin â'ch cais yn ystod y broses ddethol. Drwy lofnodi a chyflwyno eich ffurflen gais, rydych chi'n rhoi caniatâd i'ch data gael ei brosesu.

EUOGFARNAU TROSEDDOL

Mae pob sefydliad addysgol yn y Deyrnas Unedig wedi'u heithrio o Ddeddf Adsefydlu Troseddwy 1974. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu bod yn rhaid i bob ymgeisydd roi gwybod i'r Coleg am unrhyw gollfarnau sydd wedi darfod neu heb darfod ar eu ffurflen gais ac wrth gwblhau'r ffurflen Datgelu a Gwahardd. Gallai methu â darparu'r wybodaeth hon arwain at ddiswyddo. Bydd unrhyw un a fydd yn gweithio gyda dysgwyr, neu'n dod i gysylltiad â nhw, yn destun gwiriad rhestr 99 hefyd, a bydd yn rhaid i'r Coleg dderbyn y gwiriad cyn gallu dechrau cyflogaeth.

CYDRADDOLDEB AC AMRYWIAETH

Rydyn ni'n cydnabod manteision gweithle amrywiol – rydyn ni'n ystyried ein bod ni'n gyflogwr o ddewis, ac rydyn ni'n ymroddedig i gael gwared â gwahaniaethu yn y gweithle.

GOFYNION ARBENNIG

Os oes angen gwneud unrhyw addasiadau rhesymol er mwyn eich galluogi i wneud cais am y swydd hon, neu i gymryd rhan yn y broses gyfweiliad, cysylltwch â jobs@cymoedd.ac.uk

